Coleg Gwent

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## BTEC Diploma mewn Perfformio Cerddoriaeth a Thechnoleg Lefel 2



### Yn gryno

Bydd y cwrs yma yn eich cyflwyno i fyd cerddoriaeth a chynhyrchu digwyddiadau.

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb brwd a'r gallu i symud ymlaen yn y sector cerddorol

... Ydych yn hyderus wrth berfformio

... Oes gennych gariad at gerddoriaeth

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae astudio yn cynnwys perfformio, technoleg recordio, technoleg sain a deall cerddoriaeth. Mae gan y cwrs yma sylfaen ymarferol gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau mewn amrywiaeth o bynciau cerddorol. Bydd gennych hefyd fynediad i stiwdio recordio ddigidol.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cwblhau gwaith prosiect trwy amrywiaeth o berfformiadau, gwaith ysgrifenedig, blogiau, vlogs a chyfryngau rhyngweithiol.

Byddwch yn astudio 6 uned:

Uned 1: Archwilio Cerddoriaeth

Uned 2: Datblygiad Proffesiynol

Uned 5: Cynhyrchu Cerddoriaeth

Uned 6: Peirianneg Sain

Uned 7: Hunan-hyrwyddo yn y Diwydiant Cerddoriaeth

Uned 8: Prosiect Cerdd Mawr

Cyflenwir y cwrs trwy gyfuniad o:

Gwaith grwp
Dysgu yn y dosbarth
Cefnogaeth tiwtorialau

Byddwch yn trefnu, rhedeg a pherfformio fel rhan o dri digwyddiad cerddorol o bwys trwy gydol y flwyddyn. Bydd eich sgiliau fel cerddor ac fel aelod o dîm yn cael eu datblygu a'u herio.

Bydd gennych fynediad i theatr o'r radd flaenaf a chyfleusterau sain a goleuo a ddefnyddir i berfformio nosweithiau cerddorol. Bydd gennych hefyd fynediad i'n cyfresi Mac gyda Logic X ar gyfer recordio.

Byddwch yn cael eich asesu yn rheolaidd trwy arholiadau allanol ac asesiad mewnol, theori ac ymarfer, a byddwch yn cyflawni:

Cerddoriaeth BTEC Lefel 2 mewn

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i hybu eich set sgiliau

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cofrestru, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd D neu uwch arnoch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 yn y maes galwedigaethol perthnasol, gan gynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Bydd disgwyl i chi chwarae offeryn, neu ganu, er mwyn cymryd rhan mewn wythnosau perfformio.

Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunanysgogiad, gallu creadigol ac awydd i lwyddo. Bydd angen i chi fod â diddordeb mewn celfyddydau perfformiadol a datblygiad cerddoriaeth fodern.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Cerddoriaeth neu
Ddiploma Estynedig Lefel 3 mewn Technoleg Cerdd.

Byddai astudiaeth bellach yn eich galluogi i ystyried y gyrfaoedd canlynol:

Rheolwr digwyddiad, Arbenigwr PPC, Cynorthwyydd Darlledu Radio, Cynhyrchydd Radio, Rheolwr Llwyfan Theatr, Cyfansoddwr, Cyfryngau a Chyfathrebu (Diwydiannau Cerdd), Theatr Gerddorol, Ysgrifennu Caneuon, Peirianneg Sain, Technoleg Sain, Rheoli Llwyfan, Canwr Cefndir, Blogiwr, Asiant Archebu, DJ, Rheolwr Digwyddiad, Technegydd Offerynnau, Athro Cerddoriaeth, Therapydd Cerddoriaeth, Cyfarwyddwr Cerdd, Cerddorfa/Cerddor Sesiwn, Peiriannydd Recordio, Canwr, Rheolwr Taith, Cynhyrchydd Cerddoriaeth, Newyddiadurwr Cerddoriaeth, Hyrwyddwr Cyngerdd, Rheolwr A&R.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae clyweliad yn ofynnol cyn dechrau'r cwrs.